Adroddiad i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	28 Gorffennaf 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Awdur yr adroddiad	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Teitl	Adolygiad Dilynol Archwilio Mewnol o Drefniadau Rheoli Contractau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli Contractau. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r pwyllgor hwn ym mis Gorffennaf 2020 a gofynnodd y pwyllgor am gynllun gweithredu diwygiedig i adlewyrchu newidiadau allweddol. Cafodd y cynllun diwygiedig ei gyflwyno ym mis Ionawr 2021.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Is-bennawd (dilëwch yn ôl yr angen)

2.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am y ffordd y mae'r Cyngor yn gwneud gwelliannau i'r trefniadau rheoli contractau ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol a'r cynllun gweithredu diwygiedig. Rhoddodd yr adroddiad sicrwydd isel, felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adroddiad cynnydd. Hwn yw'r adroddiad cynnydd cyntaf.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y pwyllgor yn adolygu'r cynnydd o ran mynd i'r afael â chamau gweithredu'r archwiliad a phenderfynu a oes angen unrhyw adroddiad diweddaru pellach ynglŷn â chynnydd y cynllun gweithredu gwelliant.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Rhoddodd ein hadolygiad o drefniadau rheoli contractau (adroddiad mis Ionawr 2020) sicrwydd isel.

4.2. Ym mis Gorffennaf 2020, sylwodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio fod y cynllun gweithredu gwreiddiol yn cynnwys camau gweithredu nad oeddynt bellach yn ymarferol oherwydd bod Adolygiad o'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi'i atal ar anterth pandemig Covid-19. Ym mis Ionawr 2021 cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio ar gynllun gweithredu diwygiedig i ddarparu sicrwydd bod camau gweithredu addas wedi'u nodi i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol.

4.3. Mae'r adroddiad dilynol cyntaf yma yn adolygu cynnydd y camau gweithredu yn unol â'r cynllun gweithredu diwygiedig (mae'r adroddiad llawn yn Atodiad 1). Daethom i'r casgliad bod cynnydd cyfyngedig wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r camau gweithredu fel y nodir yn y cynllun gweithredu diwygiedig a gytunwyd arno ym mis Ionawr 2021. Mae cyflawni nifer o'r camau gweithredu yn llawn yn dibynnu ar gymeradwyaeth yr Uwch Dîm Arwain ar gyfer y Fframwaith Rheoli Contractau. Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd y fframwaith drafft wedi'i gyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain i dderbyn eu sylwadau a'u cymeradwyaeth, ond bydd yn cael ei gyflwyno iddynt ar 15 Gorffennaf 2021. Mae pwysau parhau o ran gallu a diffyg adnoddau rheoli contractau pwrpasol hefyd wedi cyfyngu ar y gallu i ddarparu'r oruchwyliaeth, yr hyfforddiant a'r arweiniad sy'n angenrheidiol ar gyfer rheoli contractau.

4.4. Yn seiliedig ar ganlyniadau ein hadolygiad dilynol, mae'r sgôr sicrwydd yn parhau'n isel. Mae Archwilio Mewnol yn bwriadu cynnal ail adolygiad dilynol ym mis Tachwedd 2021 er mwyn adolygu'r cynnydd mewn perthynas â chyflawni'r camau gweithredu sy'n weddill.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.